



**TGAU**

**3010N10-1**

**LLENYDDIAETH GYMRAEG**

**UNED 1: BARDDONIAETH**

**HAEN SYLFAENOL**

**DYDD LLUN, 14 MAI 2018 – BORE**

**1 awr 15 munud a'ch amser estynedig**

## **DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

**Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).**

## **CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

**Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.**

**UN CWESTIWN GORFODOL ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.**

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.**

**Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.**

## **GWYBODAETH I YMGEISWYR**

**Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.**

**Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael ei ystyried yn rhan o'r asesiad.**

1. **Darllenwch y DDWY gerdd ganlynol yn ofalus.**  
**Yn y cerddi, mae'r beirdd yn rhoi darlun o fywyd ar y stryd i ni.**

**CYMHARWCH y DDWY gerdd gan ddangos sut maen nhw'n DEBYG neu'n WAHANOL.**

**Dylech wneud hyn drwy:**

- **ysgrifennu am gynnwys y ddwy gerdd yn eich geiriau eich hun, er enghraifft:**
  - **Pa fath o ddarlun o fywyd person digartref mae'r ddau fardd yn ei roi i ni?**
  - **Meddyliwch beth yw'r neges yn y ddwy gerdd.**

## 4

- **edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am O LEIAF BEDAIR NODWEDD ARDDULL/MESUR a dweud pam maen nhw'n effeithiol**
- **nodi pa un o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn.**

**Wrth ateb, cofiwch DDYFYNNU'N BRIODOL A CHYFEIRIO AT ENGHREIFFTIAU PENODOL i gefnogi'ch sylwadau. [40]**

## TAI UNNOS

**Sbwriel oes yr iâ oedd y cerrig llyfnion  
orweddai'n flêr hyd lannau'r afon:**

**sbarion a shafins cŷn a morthwyl y rhewlif  
a siapiodd bob dyffryn ganrif wrth ganrif:**

**ac â'r sbwriel cododd ein cyndeidiau'n  
ddyfal**

**fwthyn clyd yn nhro'r afon, ar seiliau  
petryal;**

**gosod carreg ar garreg rhwng gwyll a  
gwawr,**

**a chynnau tân cyn i'r landlord dynnu'r  
cyfan i lawr;**

**hawlio darn o dir a'i godi'n aelwyd,  
drwy nerth bôn braich troi llafur yn  
freuddwyd:**

## 6

**ar lannau traffyrdd y dinasoedd llwydion,  
ac yng nghesail goncrïd swyddfeydd  
gweigion,**

**dan bontydd ffyrdd osgoi, mewn meysydd  
parcio mae rhai  
yn eu dyblau heno hefyd wrthi'n codi tai,**

**rhoi trefn ar sbwriel dan y sêr,  
hawlio darn o dir â bocsys cardbord blêr.**

**Iwan Llwyd**

## Pres y Palmant

**\*Pres, pres,  
Fel aur,  
Pedwar darn punt  
Cryf, crwn  
Fel aur yn fy llaw.**

**Dyma'r allweddi  
I ddrws Star Wars  
Yn sinema'r dre.  
Pedwar darn am docyn,  
Pedair allwedd i agor y drws.**

**Ond pwy ydy hwn  
Ar y palmant oer?  
Y llygaid cryf, crwn  
Yn wag heno,  
Fel y nos.**

**\*“Big Issue, syr? Dim ond punt...”**

**Dim ond punt? Ond dw i eisiau pob punt  
Am docyn i'r sêr!  
Star Wars neu'r Big Issue?  
Fi – neu fe?**

**Cerdded adre, Big Issue yn fy llaw.  
Ond heno, fydd y palmant ddim mor oer.**

**Robat Powell**

**\*Pres – arian**

**\*Big Issue – cylchgrawn sy'n cael ei  
werthu gan bobl ddigartref**

**DIWEDD Y PAPUR**